O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 675 (Cy. 89)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Maenan, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012

Wedi'i wneud	*2 Mawrth 2012*
Yn dod i rym	*12 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Maentwrog – Man i'r Dwyrain o Gonwy (A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gael ei gyfyngu neu ei wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Mawrth 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Maenan, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 12 Mawrth 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A470 ym Maenan ym Mwrdeistref Sirol Conwy sy'n ymestyn tua'r de o'r eiddo o'r enw Dyto hyd at ei chyffordd â Ffordd Maenan.